

Gallaf ysgrifennu cyfarwyddiadau ar gyfer ...

- Rysâit ar gyfer bwyd blasus
- Sut i frwsio dannedd
- Sut i adeiladu pyramid fel yr Eifftiaid
- Rheolau ar gyfer gêm neu chwaraeon
- Technegau chwaraeon e.e. nofio dull broga
- Sut i wneud rhywbeth crefft neu D a Th
- Sut i gadw eich rhieni'n hapus
- Sut i ofalu am anifail anwes
- Cyfarwyddiadau ar sut i fynd o un lle i le arall
- Cyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio darn o offer
- Canllawiau cam wrth gam ar blannu hadau
- Sut i godi pabell
- Cyfarwyddiadau ar gyfer arbrawf gwyddonol
- Tric hud



Sut i gyflwyno 'Cyfarwyddiadau'

- Rhestr o gyfarwyddiadau cam wrth gam, gan gynnwys diagramau neu luniau i helpu'r darllenwr
- Siart-lif â champau wedi eu rhifo a diagramau
- Llyfryn bach i roi mewn gêm
- Fideo arddangos
- Llyfr mawr o ryseitiai neu brosiectau crefft

Rhestr wirio 'Ysgrifennu Cyfarwyddiadau'

Wnes i gofio ...?

Nod fy nghyfarwyddiadau



Rhestr o offer neu gynhwysion



Dilyniant cam wrth gam



Rhifau, llythrennau neu bwyntiau bwled



Cysyllteiriau dilyniant



Berfau sy'n gorchymyn



Diagram wedi ei labelu



Brawddegau clir, cryno



Addasiad o bamffled Tîm Llythrennedd Swydd Gaerhirfryn

Sut i

Ysgrifennu

Cyfarwyddiadau



Beth yw pwrpas cyfarwyddiadau?

- Disgrifio neu gyfarwyddo sut i wneud rhywbeth, cam wrth gam yn drefnus



Nod

Offer

Cam
1

Cam
2

Cam
3

Strwythur a threfniant

- Dechreuwch gyda'r nod - dywedwch beth ydych chi'n mynd i'w gyflawni
- 'Sut i hudo cynulleidfa gyda thric cardiau hud'
- Rhestr o'r offer neu'r cynhwysion sydd eu hangen yn y drefn iawn
- Cyfarwyddiadau cam wrth gam mewn trefn
- Gorffennwch gyda sylw i'r darllenwr e.e. *Bon Appetite!*



I bwy mae'r cyfarwyddiadau?

- I rywun sydd heb wneud hwn o'r blaen e.e. chwarae'r gêm, coginio'r rysâit,
- teithio i ryw le
- Ydy'r darllenwr yn hen neu'n ifanc? Oes angen i'r iaith fod yn syml â lluniau i'w helpu i ddeall?
- A ddylech rybuddio am offer peryglus, neu fod angen help oedolyn?



Yr iaith i'w defnyddio

- Dechreuwch bob cam gyda **gair sy'n esbonio trefn amser** e.e. **yn gyntaf, nesaf, yna, wedyn, yn olaf**; neu **ferf sy'n gorchymyn** e.e. **cymysgwch, plygwch, casglwch**
- Defnyddiwch eiriau syml
- Gwnewch yn siwr bod eich brawddegau yn glir ac yn fanwl gywir
- Naill ai defnyddiwch yr **ail berson** e.e. Ar ôl i chi ludo ... neu'r **goddefol** e.e. Ar ôl i'r ochrau gael eu gludo ...
- Defnyddiwch rifau, llythrennau, pwyntiau bwled neu liw i ddangos y drefn gywir

Cliwiau i'r clyfar!

- Byddwch yn glir am yr hyn sydd ei angen cyn dechrau
- Meddyliwch yn ofalus am y drefn o weithredu
- Os ydy'ch cynulleidfa'n ifanc, defnyddiwch luniau yn hytrach na geiriau technegol
- 'Siaradwch' â'ch darllenwr i dynnu ei sylw e.e. Ydych chi wedi coginio crempog o'r blaen? Hoffech chi wybod sut i wneud i garden ddiflannu?
- Gwnewch yn siŵr bod eich cyfarwyddiadau'n swnio'n hawdd -
'*Tri cham syml i greu ...*'
- Rhowch dro ar eich cyfarwyddiadau, neu gofynnwch i ffrind eu gwirio i sicrhau eu bod yn glir ac yn gweithio